



Cofnodion **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, **Nos Lun, 25 Tachwedd 2019** am 6.30 y.h.

**PRESENNOL** :- Ei Deilyngdod y Maer y Cynghorydd J Wyn Williams  
 Y Dirprwy Faer y Cynghorydd Owen Hurcum  
 Cynghorwyr Luke Tugwell (Is-gadeirydd) Keiran Jones Enid Parry  
 Dylan Fearnley Colin King Mair Rowlands  
 D Hainge J M Martin Elin Walker Jones  
 J Wynn Jones

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref a Martin Hanks, Clerc y Dref dros dro

### 123/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Les Day, G O Roberts a Gareth Roberts.

### 124/19 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

### 125/19 MATERION BRYD

Dim.

### 126/19 CEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD** : Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

C19/0421/11/CC Tocio a thorri coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed. Tir ger Ffordd Deiniol. Diwygiadau: Adroddiad arolwg coed diwygiedig wedi ei dderbyn ar 06/11/19. **Gwrthwynebiad: Mae Cyngor y Ddinas yn gwrthwynebu'r cais hwn yn ei ffurf bresennol ar y sail, er bod yr ardal yn ddolur llygad ar hyn o bryd gydag angen brys i docio'r ymylon, mae'r ardal drwyddi draw o fudd sylweddol i ecosystem naturiol y Ddinas. Mae'r Cyngor yn pwysu ar y perchnogion i docio'r borderi allanol yn unig.**

C19/0912/11/CR Addasiadau mewnol ac allanol 3 Rhes Bryn Hyfryd, Y Cilgant. **Gwrthwynebiad gan fod gormod o HMOs a phosibilrwydd o HMOs yn y Ddinas yn barod a bydd y cais yma yn cynyddu'r capasiti hwn.**

C19/1024/11/LL Cais i amrywio amod 4 o ganiatâd cynllunio rhif C18/0239/11/LL er mwyn ymestyn oriau agor o 11am-8pm i 11am-3am. 293 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad.**

C19/1042/11/CT Gwaith cynnal a chadw ar goed o fewn ardal gadwraeth gan gynnwys torri coed wedi marw. Eglwys y Santes Fair, Ffordd Garth. **Dim gwrthwynebiad. Serch hynny, er budd bioamrywiaeth, mae'r Cyngor yn gofyn i'r ymgeisydd blannu'r un faint o goed ifanc yno.**

C19/1074/CT Torri coed o fewn ardal gadwraeth. **Gohiriwyd: mae'r Cyngor yn gofyn am gael mwy o wybodaeth fanwl gan Gyngor Gwynedd cyn gwneud penderfyniad terfynol. Byddai adroddiad ar gyflwr y coed yn ddefnyddiol hefyd.**

### 127/19 YMGYNGHORIAD CYN GWNEUD CAIS

Ysgol Friars, Lon y Bryn – **Nid yw Cyngor y Ddinas yn erbyn y syniad y tu ôl i'r datblygiad arfaethedig hwn ond mae angen mwy o wybodaeth cyn y gall roi unrhyw farn arno.**

Newid Defnydd – Cyn Eglwys y Santes Fair, Ffordd Garth. **Dim sylwadau.**

### 128/19 MATERION PRIFFYRDD

Dirymu lle parcio i breswlydd anabl – Rhifau 13 a 14 Trehwfa, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

### 129/19 MATERION TRWYDDEDU

Dim.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.00 y.h.